

SOCG005A

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030

**Adendwm i
Ddatganiad Tir Cyffredin
Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy**

Mawrth 2021

Sylwadau i'r Ymgynghoriad ynghylch y Ddogfen i'w Harchwilio Gan y Cyhoedd Dŵr Cymru / Hafren Dyfrdwy

Adendwm i Ddatganiad Tir Cyffredin Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy

Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa – Mawrth 2021

Mae Dŵr Cymru wedi cynnig y diweddariad canlynol i'r Datganiad Tir Cyffredin [SOCG005](#) ar 12/03/21:

Well Street, Bwcle, 159 uned

- Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn.
- Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r safle datblygu hwn
- Gall Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (WwTW) Tŷ Gwyn Bwcle ddarparu ar gyfer dŵr budr o'r safle datblygu arfaethedig hwn.

Dalgylch WwTW Queensferry

Mae'r CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn cynnwys tair safle tai dynodedig o fewn dalgylch WwTW Queensferry

- | | |
|---|-----------|
| • STR3A Safle Datblygiad Defnydd Cymysg Porth y Gogledd | 1300 uned |
| • HN1.7 Ffordd Treffynnon / Green Lane, Ewlo | 298 uned |
| • HN1.8 Ash Lane, Penarlâg | 288 uned |

Rydym yn rhagweld y bydd y twf a gynigir o fewn y dalgylch hwn yn arwain at angen i ddarparu capasiti ychwanegol yn y WwTW. Mae amseriad unrhyw welliannau capasiti gofynnol yn ddibynnol ar gynnydd y ddarpariaeth ar y safle strategol a ymrwymwyd STR3A, ac amseriad y ceisiadau ar safleoedd dynodedig HN1.7 a HN1.8.

Rydym yn ymwybodol fod y 1300 o unedau ar safle strategol STR3A eisoes yn elwa o ganiatâd cynllunio a disgwylir y bydd gwaith adeiladu'r safle hwn yn parhau y tu hwnt i gyfnod y cynllun, felly byddwn yn monitro cynnydd y datblygiad ac yn parhau i asesu perfformiad yr WwTW wrth i'r eiddo hyn gysylltu. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd yn rhaid gwneud gwelliannau capasiti ar yr WwTW ar rhyw bwynt yn ystod cyfnod y Cynllun Lleol (2015-2030).

Fel y nodwyd yn y Datganiad Tir Cyffredin, cwblheir buddsoddiad cyfalaf Dŵr Cymru drwy raglen Cynllun Rheoli Asedau bob pum mlynedd. Mae'r rhaglen AMP7 yn cael ei darparu ar hyn o bryd, sy'n cynnwys buddsoddiad ar gyfer y cyfnod 2020-25, bydd AMP8 i ddilyn ar gyfer 2025-2030. Mae gan CDLI Sir y Fflint amserlen tan 2030, felly gall unrhyw fuddsoddiad sydd ei angen yn WwTW Queensferry i ddarparu'r dyraniadau tai arfaethedig gael ei ystyried i'w gynnwys mewn Cynlluniau Rheoli Asedau i'r dyfodol. Lle bo angen gwelliannau isadeiledd mewn WwTW er mwyn bwrw ymlaen â datblygiad, ond nad oes unrhyw gynlluniau cyfredol i fuddsoddi drwy

Gynllun Rheoli Asedau, gall datblygwyr wneud cyfraniadau ariannol i sicrhau unrhyw welliannau hanfodol, drwy rwymedigaethau cynllunio, dan A106 yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.